

Briff ymchwil 04

Dysgu ymarferol

www.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon yn un o gyfres o nodiadau briffio sy'n trin a thrafod themâu allweddol sydd wedi codi yn arolwg Llais y Dysgwr Cymru Llywodraeth Cymru. Mae'n rhoi crynodeb o'r sylwadau cadarnhaol a negyddol y mae dysgwyr wedi'u mynegi ynghyd â negeseuon sy'n deillio o ymchwil i ba mor effeithiol yw'r ddarpariaeth o ddysgu ymarferol. Rydym wedi defnyddio hwn i awgrymu pwyntiau gweithredu posibl i ddarparwyr eu hystyried, ac adnoddau pellach i'r rheini sydd â diddordeb mewn archwilio'r pwnc yn fanylach.

Beth ddywedodd y dysgwyr?

- Mae llawer o ddysgwyr sy'n dilyn addysg bellach (AB) a rhaglenni dysgu seiliedig ar waith yn dweud mai gwaith ymarferol yw'r elfen o'u rhaglen y maent yn ei mwynhau orau.
- Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi gweithgareddau, adnoddau a chyfleusterau sy'n eu helpu i ddeall gofynion diwydiant 'y byd go iawn', gan gynnwys offer a deunyddiau proffesiynol.
- Cafwyd nifer o sylwadau cadarnhaol am ddarlithwyr, tiwtoriaid ac aseswyr oedd yn dod â'u profiad mewn diwydiant neu eu profiad proffesiynol i'r profiad dysgu. Mae dysgwyr yn parchu gwybodaeth a phrofiad staff sy'n gallu rhoi dealltwriaeth wirioneddol iddynt o sut beth yw gweithio mewn amgylchedd proffesiynol, a pha lwybrau gyrfa gwahanol a allai fod ar gael iddynt.
- Mae rhai myfyrwyr AB yn teimlo nad yw'r cydbwysedd rhwng theori a gwaith ymarferol yn gywir ar y cwrs maent yn ei ddilyn ac nad ydynt yn treulio digon o amser yn gwneud gwaith 'ymarferol'. Roedd nifer yn teimlo'n rhwystredig eu bod yn treulio'r cyfran helaethaf o'u hamser yn gwneud aseiniadau a sgiliau hanfodol.
- Yng nghyswllt dysgu seiliedig ar waith, roedd rhai prentisiaid yn dweud eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod hyfforddiant yn rhan o'u gwaith, gan roi sylwadau ar dealltwriaeth eu haseswr o'u swydd a'u busnes. Ond, roedd nifer tebyg o ddysgwyr yn teimlo **nad** oedd eu hyfforddiant fel prentisiaid yn adlewyrchu digon ar eu swydd, ac y dylid teilwra'r hyfforddiant i adlewyrchu gofynion eu cyflogwr.
- Mewn nifer o achosion, roedd dysgwyr wedi rhoi enghreifftiau penodol o adegau roeddent wedi elwa ar gynnwys ymarferol eu rhaglen, gan gynnwys y canlynol:
 - cyfleoedd i archwilio elfennau gwahanol ym maes celf a chyfryngau gwahanol
 - profiad o weithio gydag anifeiliaid ar gyrsiau amaethyddol (yn enwedig lle cafwyd cyfleoedd i ddysgu am nifer o wahanol anifeiliaid)
 - deall yr agweddau ymarferol ar ofal plant drwy gyfrwng lleoliadau gwaith
 - gweithio gyda chleientiaid, a'r cynnydd mewn hyder oedd yn deillio o hynny
 - mynd y tu hwnt i gynnwys y cwrs i archwilio meysydd oedd o ddiddordeb penodol, prosiectau unigol a gweithgareddau entrepreneuriaidd.
- Cafwyd rhai enghreifftiau, ym maes AB a dysgu seiliedig ar waith, lle roedd dysgwyr yn teimlo nad oeddent wedi cael gwybodaeth glir ymlaen llaw am gynnwys eu cwrs a faint o waith ysgrifenedig neu theori y byddai angen iddynt ei wneud.
- Dywedodd rhai dysgwyr eu bod wedi cael cyngor da ar sefydlu eu busnes eu hunain, tra bo eraill yn dweud bod cynnwys eu cwrs wedi eu hysgogi i archwilio trywydd gyrfa newydd neu lwybr addysg uwch nad oeddent wedi'i ystyried cyn hynny.

Strategaethau effeithiol ar gyfer cyflwyno dysgu ymarferol

Codwyd y strategaethau isod o ystod o gyhoeddiadau'n ymwneud â dysgu ymarferol sydd, yn eu tro, yn seiliedig ar waith ymchwil helaeth i 'beth sy'n gweithio' mewn lleoliadau ôl-16. I weld rhestr o wybodaeth am ddeunyddiau darllen pellach, ewch i'r adran 'Adnoddau' ar ddiwedd y nodyn briffio hwn.

Beth yw dysgu ymarferol?

Yn eu dogfen *Mind the gap* (2010)¹ sef adolygiad o addysg ymarferol a galwedigaethol yn y DU, mae The Edge Foundation yn cynnig y diffiniad canlynol.

'By practical education (PE), we mean the orchestration of learning experiences where the goal is to be able to work effectively with a particular kind of material to produce desired levels of products and performances...it enables children and young people to learn by applying ideas, imagination and knowledge to a practical problem or in a practical context.'

Mae *Mind the gap* yn tynnu sylw at ymchwil sy'n dangos mai'r prif ddylanwad ar ddeilliannau a bodlonrwydd dysgwyr yw beth mae athrawon yn ei wneud o ddydd i ddydd i ddatblygu arbenigedd dysgwyr ac agwedd gadarnhaol tuag at gyflogadwyedd. Mae hwn yn fodel gwahanol iawn i'r addysgu didactig traddodiadol ac yn galw am sgiliau gwahanol ar ran ymarferwyr.

Mae **dysgu galwedigaethol** fel arfer yn cyfuno elfennau ymarferol a rhai theoretig neu 'academaidd'. Fel y mae adborth Llais y Dysgwr Cymru yn dangos, mae dysgwyr fel arfer yn gweld gwerth mawr mewn cynnwys ymarferol, ac mae'n gallu bod yn rhwystredig iddynt dreulio cyfnodau sylweddol o amser yn gwneud gwaith theoretig nad ydynt yn gallu gweld ar unwaith beth yw'r cysylltiad rhyngddo â'u maes gwaith presennol neu'r maes gwaith maent yn bwriadu mynd iddo.

Mae addysg alwedigaethol wych yn ceisio sicrhau'r canlynol:

1. **arbenigedd yn eu gwaith arferol**: bod yn fedrus yn y maes maent wedi'i ddewis
2. **dyfeisgarwch**: gallu delio â phethau sydd y tu hwnt i'r arferol a'r annisgwyl
3. **llythrennedd gweithredol**: llafar, ysgrifenedig, rhifol, graffigol a digidol
4. **crefft**: anelu at ragoriaeth a balchder mewn gwneud eu gwaith yn dda
5. **agwedd broffesiynol**: ymdrin â chleientiaid, cyflenwyr a chwsmeriaid mewn ffordd briodol
6. **sgiliau ehangach**: magu agwedd meddwl dysgwr gydol oes effeithiol.

Arweiniad Addysgegol (157 Group, 2013)

Yn eu traethawd 'Is vocational education for the less able?'³ mae Guy Claxton a Bill Lucas yn cyflwyno dadl bwerus yn erbyn y myth mai llwybrau sydd ond yn addas ar gyfer pobl llai galluog yw'r crefftau neu'r proffesiynau ymarferol. I'r gwrthwyneb, mae angen i weithwyr â sgiliau galwedigaethol gyflawni tasgau gwybyddol sy'n ymestynnol, er enghraifft cynllunio, blaenoriaethu, cyfrifo ac ymateb i broblemau annisgwyl. Nododd Claxton a Lucas hefyd fod gan ddysgwyr nifer o resymau dros ddewis llwybr galwedigaethol: efallai eu bod yn cael mwy o fwyhad a boddhad o weithgareddau ymarferol na gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar ddarllen, ysgrifennu a meddwl yn haniaethol; neu efallai eu bod yn ysu am adael yr ysgol a byw fel oedolyn, ac yn teimlo bod dysgu galwedigaethol yn cynnig y cyfle iddynt wneud hynny'n gynt.

Dysgu ac addysgu ymarferol rhagorol

Casgliad o draethodau sy'n trin a thrafod sut y gellid gwella statws dysgu ymarferol a galwedigaethol yw *Practice Makes Perfect* (2007)⁴ gan The Social Market Foundation. Mae'n amlinellu **nodweddion hanfodol dysgu ymarferol effeithiol**.

- Cydnabyddir arbenigedd athrawon ar sail yr hyn maent yn gallu ei wneud, yr hyn maent wedi'i wneud a sut maent yn ei wneud.
- Mae dysgu fel bod yn y gwaith. Mae'r tasgau sy'n cael eu gosod yn dasgau go iawn ac mae perfformiad yn cael ei fesur yn ôl meincnodau proffesiynol.
- Mae athrawon yn modelu, yn herio, yn hyfforddi ac yn ymestyn.
- Mae dysgwyr yn mireinio'u sgiliau a'u dealltwriaeth drwy fynd i'r afael â phroblemau go iawn.
- Mae ymddygiad dysgwyr yn cael ei siapia gan eu perthynas â chwsmeriaid, cydweithwyr ac arferion cysylltiedig.
- Mae dysgwyr yn mewnnoli safonau proffesiynol, yn eu cyferbynnu ag arferion amatur neu amheus ac yn gwybod ym mha ffyrdd y gellir amrywio safonau yn gyfreithlon.

- Mae dysgwyr yn datblygu i fod yn barod am swydd, yn barod am waith ac yn barod i fod yn 'un ohonom ni'.

Mae fy nhwtoriaid i gyd o gefndiroedd gwahanol ac mae ganddynt wybodaeth am wahanol agweddau ar y grefft sy'n golygu bod staff gydag ystod eang iawn o sgiliau yn dod at ei gilydd gan greu tîm da.

Cysylltu dysgu a gwaith

Cyhoeddwyd adroddiad y Comisiwn ar Addysgu a Dysgu Galwedigaethol i Oedolion (CAVTL) *Mae'n ymwneud â gwaith...*⁵ yn 2013. Mae'r adroddiad yn nodi gweledigaeth ar gyfer system addysg a hyfforddiant galwedigaethol gyda'r gorau yn y byd sy'n darparu llwybrau cychwynnol at waith i ddysgwyr yn ogystal â gwasanaeth datblygu gyrfa parhaus. Canolbwynt y weledigaeth hon yw darparu **llwybr clir at waith**, fel bod modd i ddysgwyr wneud y canlynol:

- gweld pam maent yn dysgu'r hyn maent yn ei ddysgu
- deall beth sydd ynghlwm wrth ddatblygu arbenigedd galwedigaethol.
- cael profiad o'r swydd yn ei chyd-destun.

Yn yr ymarfer gorau a welodd CAVTL yn ystod ei adolygiad, roedd athrawon a hyfforddwyr yn gosod theori mewn cyd-destun o enghreifftiau ymarferol, gan ddefnyddio'r wybodaeth 'bywyd go iawn' yr oedd prentisiaid a hyfforddeion wedi'i chael yn sgil eu gweithleoedd. Rôl hanfodol sydd gan athrawon galwedigaethol i'w chwarae yw dyblygu'r ffordd y mae dysgwyr yn cael eu hasesu ac yn cael adborth ar eu perfformiad yn y gweithle, er mwyn iddynt allu datblygu'r gwytnwch y mae arnynt ei angen i ymdopi â beirniadaeth a symud ymlaen.

Yr hyn rydw i'n ei hoffi am y cwrs hwn yw ei fod yn cryfhau fy sgiliau fel actor yn gyffredinol. Mae'n fy helpu i gryfhau fy hyder fel person, ac yn fy nysgu i dderbyn beirniadaeth a'i defnyddio fel ffordd i wella fy mherfformiad.

Mireinio sgiliau dysgwyr

Mae adroddiad *Bodies of knowledge* (2010)⁶ The Edge Foundation yn defnyddio ymchwil a wnaed ym maes niwrowyddoniaeth a gwyddoniaeth wybyddol i

archwilio sut mae'r meddwl a'r corff yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae'r ymchwilwyr yn dadlau bod y gwahaniaethu traddodiadol rhwng dysgu 'academaidd' a dysgu 'ymarferol' yn annilys; pwrpas pob ffurf ar addysg yw helpu dysgwyr i ddatblygu gwybodaeth a'i defnyddio mewn cyd-destun penodol.

Mae *Bodies of knowledge* yn nodi pedwar math o **feddylfryd** sy'n cydweithio â'i gilydd i hwyluso dysgu (boed hynny'n ddysgu ymarferol, yn ddysgu academaidd neu'r ddau).

- **Ymchwilio:** mae dysgwyr effeithiol yn dda am geisio a chasglu gwybodaeth; maent yn archwilio ac yn pwysu a mesur yr hyn maent yn ei weld, ac yn datblygu ffydd yn eu gallu i wahaniaethu rhwng tystiolaeth gref a thystiolaeth wan.
- **Arbrofi:** yn y math hwn o feddylfryd, mae pobl yn dysgu drwy addasu pethau, mireinio eu sgiliau a chwilio am welliannau bach. Maent yn mwynhau adolygu'r gwaith sydd ganddynt 'ar y gweill' - boed hynny'n gynllun plannu, yn fwydlen neu'n gyfansoddiad cerddorol – a gweld sut y gallant ei newid.
- **Dychymyg:** mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau ymarfer a darlunio yn y meddwl, 'synfyfyrion' creadigol i ddatrys problemau, ac ysgogiadau di-eiriau.
- **Rhesymu:** mae'r strategaeth fwyaf traddodiadol, sy'n cael ei defnyddio mewn addysg ffurfiol, yn gallu cael ei defnyddio mewn cyd-destunau ymarferol hefyd. Mae'n hollbwysig bod darparwyr yn addysgu myfyrwyr i ddefnyddio gwybodaeth a meddwl disgybledig yng nghyd-destun y maes maent wedi'i ddewis; gallai hyn, er enghraifft, gynnwys meddwl am esboniadau eraill am anffawd, neu feddwl yn ofalus am ganlyniadau posibl ffyrdd gwahanol o weithredu.

Mi fyddwn i'n gwneud y dysgu yn fwy perthnasol i'r gyrfa oedd yn y diwydiant hwn fel bod modd i ni roi hwn ar waith wrth weithio yn y diwydiant twristiaeth. Mae'n gallu bod yn anodd canolbwyntio pan rydych yn eistedd wrth ddesg o hyd.

Canfu *gwaith ymchwil*⁷ a wnaed gan Brifysgol Rhydychen ar WorldSkills bod cymryd rhan mewn **cystadlaethau sgiliau** yn gallu helpu dysgwyr nid yn unig i gryfhau eu sgiliau proffesiynol, ond hefyd i ddatblygu sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol oedd yn eu galluogi i gyflwyno eu harbenigedd yn fwy

effeithiol. Mae'r buddion a nodwyd gan yr ymchwil wedi'u nodi isod:

WorldSkills: mae'r buddion o safbwynt cystadleuwyr yn cynnwys y canlynol:

- datblygu sgiliau technegol yn gyflym drwy hyfforddiant dwys a oedd yn helpu cystadleuwyr i fod yn drachywir ac i gael dealltwriaeth well o'r problemau technegol roeddent yn eu hwynebu.
- datblygu sgiliau meddal gan gynnwys hyder, hunanfyfyrdod, rheoli amser a chyfathrebu
- camu ymlaen yn eu gyrfa, a dod yn ymwybodol o gyfleoedd drwy rwydweithio
- sgiliau entrepreneuriaeth (roedd bron i chwarter y cystadleuwyr a gafodd eu holi wedi mynd yn hunangyflogedig).

[SKOPE, University of Oxford \(2013\)](#)⁸

Fodd bynnag, roedd yr ymchwilwyr hefyd yn nodi'r angen am gefnogaeth well i gystadleuwyr i'w helpu i addasu i'w bywyd ar ôl cystadlu, ac yn argymhell y dylid pennu disgwyliadau cliriach ar gyfer cystadleuwyr a'u rheolwyr hyfforddiant.

Cynllun gweithredu

- ➔ Mae *Pedagogic leadership* yn nodi proses bedair cam ddefnyddiol y gall arweinwyr ei defnyddio i lunio eu gweledigaeth eu hunain ar gyfer dysgu galwedigaethol 'da i wych'.
- ➔ Mae'r deunyddiau ysgrifenedig a werthuswyd ar gyfer y nodyn briffio hwn yn awgrymu bod rhoi'r math o adborth i ddysgwyr y byddent yn ei gael yn y gweithle yn gallu eu helpu i ddatblygu gwytnwch a hunanymwybyddiaeth.
- ➔ Adolygu rhaglenni dysgu galwedigaethol, cyngor ac arweiniad i sicrhau y ceir 'llwybr clir' at waith, gan ddilyn yr egwyddorion sydd wedi cael eu nodi yn nogfen CAVTL *It's about work...*
- ➔ Ystyried sut i roi gwybodaeth glir ymlaen llaw i ddysgwyr am gynnwys y cwrs, gan gynnwys y cydbwysedd rhwng dysgu theoretig a dysgu ymarferol. Nid yw rhai dysgwyr yn sylweddoli faint o'u hamser y byddant yn ei dreulio ar aseiniadau ysgrifenedig a gwaith theoretig arall, ac nid ydynt yn meddwl bod y gwaith hwn yn ddigon perthnasol i'r gyrfaedd y mae ganddynt ddiddordeb ynddynt.
- ➔ Sicrhau bod gan raglenni ar **bob** lefel gynnwys ymarferol a fydd yn cymell ac yn tanio brwdfrydedd dysgwyr. Nododd [adroddiad blynyddol](#) Estyn ar gyfer 2013/14 fod dysgwyr sy'n dilyn cyrsiau lefel mynediad mewn sefydliadau AB – ac yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig – yn treulio llawer o'u hamser yn gwneud gweithgareddau adferol, ac mae'r ystod o gyfleoedd galwedigaethol sydd ar gael iddynt yn gyfyngedig.
- ➔ Dylai darparwyr sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau sgiliau ystyried sut maent yn cefnogi dysgwyr a staff, a sut maent yn pwyso a mesur effaith cyfranogi.

Adnoddau

- ***Mind the gap***⁹ (Edge Foundation, 2010)
Adolygiad o addysg ymarferol a galwedigaethol yn y DU a'r tu hwnt, gan gynnwys argymhellion ar wella cydnabyddiaeth a statws addysg ymarferol a galwedigaethol.
- ***It's about work...***¹⁰ (Y Gwasanaeth Gwella Dysgu a Sgiliau, 2013)
Mae adroddiad cyntaf y Comisiwn yn nodi'r prif egwyddorion ac argymhellion ar gyfer sicrhau system addysg galwedigaethol 'gyda'r gorau yn y byd'.
- ***Pedagogic leadership***¹¹ (157 Group, 2013)
Wedi'i gomisiynu gan golegau 157 Group, mae'r canllaw hwn yn trin a thrafod y goblygiadau ymarferol ar gyfer arweinwyr sy'n anelu at ddarparu dysgu galwedigaethol rhagorol.

Elusen sydd wedi ymroi i godi statws dysgu galwedigaethol, technegol ac ymarferol yw **The Edge Foundation**.
www.edge.co.uk

Mae **Find a Future** yn dod â chystadlaethau WorldSkills a chystadlaethau'r DU at ei gilydd. Mae'r adnoddau sydd ar gael ar eu gwefan yn cynnwys arweiniad ar wreiddio gweithgareddau cystadlaethau sgiliau mewn prentisiaethau a dysgu galwedigaethol.

www.findafuture.org.uk

Llais y Dysgwr Cymru

Llais y Dysgwr Cymru yw arolwg blynyddol Llywodraeth Cymru o ddysgwyr ym maes addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion. Mae'r arolwg, a lansiwyd yn 2013, yn ceisio barn dysgwyr am amryw o bynciau sy'n ymwneud â:

- gwybodaeth, cyngor ac arweiniad
- cymorth
- dysgu ac addysgu
- lles ac ymatebolrwydd
- dysgu cyfrwng Cymraeg
- bodlonrwydd cyffredinol.

Rydym hefyd yn gofyn i ddysgwyr roi sylwadau ar beth maent yn ei hoffi orau am eu darparwr dysgu, a beth maent yn credu y gellid ei wella.

Mae crynodeb o'r arolwg ar gael yn
<http://llyw.cymru/llaisydysgwr>

I gael rhagor o wybodaeth, anfonwch e-bost at
post16quality@cymru.gsi.gov.uk

-
- ¹ *Mind the gap* (Edge Foundation, 2010)
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/mind-the-gap-edge-foundation-report/?skip=1&lang=cy>
- ² *Pedagogic leadership* (157 Group, 2013)
www.157group.co.uk/sites/default/files/documents/157g-115-pedagogicleadership.pdf
- ³ 'Is vocational education for the less able?' gan Guy Claxton a Bill Lucas yn *Bad Education: Debunking Myths in Education*, gol. Philip Adey and Justin Dillon (Gwasg y Brifysgol Agored, 2012)
- ⁴ *Practice Makes Perfect: The Importance of Practical Learning* (The Social Market Foundation, 2007)
www.smf.co.uk/wp-content/uploads/2007/03/Publication-Practice-Makes-Perfect-The-Importance-of-Practical-Learning.pdf
- ⁵ *It's about work...* (Y Gwasanaeth Gwella Sgiliau a Dysgu, 2013) (Saesneg yn unig)
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/its-about-work-enabling-excellent-adult-vocational-teaching-and-learning/?lang=cy>
- ⁶ *Bodies of knowledge* (Edge Foundation, 2010)
www.edge.co.uk/media/16982/bodies_of_knowledge.pdf
- ⁷ *Benefits of Developing Vocational Excellence through Skills Competitions: Research Brief* (SKOPE, Prifysgol Rhydychen, 2013)
<http://vocationalexcellence.education.ox.ac.uk/wordpress/wp-content/uploads/2014/02/Project-3-Research-brief.pdf>
- ⁸ *Benefits of Developing Vocational Excellence through Skills Competitions: Research Brief* (SKOPE, Prifysgol Rhydychen, 2013)
<http://vocationalexcellence.education.ox.ac.uk/wordpress/wp-content/uploads/2014/02/Project-3-Research-brief.pdf>
- ⁹ *Mind the gap* (Edge Foundation, 2010)
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/mind-the-gap-edge-foundation-report/?skip=1&lang=cy>
- ¹⁰ *It's about work...* (Y Gwasanaeth Gwella Sgiliau a Dysgu, 2013) (Saesneg yn unig)
<http://learning.gov.wales/resources/browse-all/its-about-work-enabling-excellent-adult-vocational-teaching-and-learning/?lang=cy>
- ¹¹ *Pedagogic leadership* (157 Group, 2013)
www.157group.co.uk/sites/default/files/documents/157g-115-pedagogicleadership.pdf